Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board



# Ysbyty Athrofaol y Faenor

## Mae'r ffordd yr ydym yn darparu gofal iechyd yng Ngwent yn newid

Bydd ein canolfan gofal arbenigol a chritigol newydd, Ysbyty Athrofaol y Faenor - yn darparu canolfan ragoriaeth yng Ngwent i drin ein cleifion mwyaf difrifol wael neu'r rhai ag anafiadau sylweddol a hi fydd yr uned drawma ddynodedig ar gyfer Gwent.



Bydd gan yr ysbyty 560 o welyau (gan gynnwys trolïau a chotiau) ac Uned Asesu Acíwt 24 awr, Adran Achosion Brys a Man Glanio i Hofrennydd. Bydd yn darparu gwasanaeth brys 24/7 i gleifion sydd angen gofal arbenigol a chritigol.

**Bydd yr ysbyty yn agor ar 17 Tachwedd 2020 i'n helpu i ymateb i bwysau'r gaeaf ac ail don bosibl o COVID-19.**

Bydd Ysbyty Athrofaol y Faenor yn darparu gofal i bobl sy'n ddifrifol wael neu sydd â phroblemau neu gyflyrau cymhleth na ellir eu rheoli'n ddiogel yn un o'n Hysbytai Cyffredinol Lleol.

Bydd y gwasanaethau canlynol ar gael yn Ysbyty Athrofaol y Faenor:

- Derbyniadau brys ar gyfer anhwylderau ac anafiadau difrifol ac ar gyfer cleifion sydd angen dadebru;
- Llawdriniaethau Brys a Gofal Trawma
- Llawdriniaethau Mawr a Chydafiachedd (mwy nag un cyflwr difrifol)
- Uned Asesu Brys
- Gofal Critigol
- Uned Gardiaidd Acíwt
- Triniaeth Gardioleg ar gyfer Cleifion Mewnol
- Uned Strôc Hyper Acíwt
- Meddygaeth Acíwt
- Uned Obstetreg i Gleifion Mewnol a Genedigaethau Risg Uchel
- Uned Asesu Plant
- Uned Gofal Dwys i'r Newydd-anedig ac Uned Gofal Arbennig Babanod
- Cleifion Mewnol Pediatrig
- Llawdriniaethau i Gleifion Mewnol Pediatrig
- Diagnosteg
- Endosgopi Brys

**Cael y gofal cywir i chi**

Mewn argyfwng, bydd cleifion y mae angen iddynt gael eu trin gan dîm arbenigol yn mynd yn syth i Ysbyty Athrofaol y Faenor, lle bydd y lefelau uchaf o ofal a chymorth diagnostig ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Bydd rhai cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio gan eu Meddyg Teulu yn gallu cael triniaeth yn nes at eu cartref yn eu hysbyty lleol. Os bydd eich iechyd yn dirywio tra'ch bod yn cael triniaeth yn unrhyw un o'n hysbytai a'ch bod angen mynediad at yr arbenigwyr neu'r gofal critigol a ddarperir yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, byddwn yn eich trosglwyddo yno trwy ein gwasanaeth cludo cleifion pwrpasol.

## Gofalu am Blant

**Bydd plant sydd angen triniaeth frys yn mynd i Ysbyty Athrofaol y Faenor lle bydd meddygon a nyrsys plant arbenigol wedi'u lleoli'n ganolog.**

Bydd yr holl welyau ysbyty i blant a'r **Uned Asesu Brys i Blant** hefyd wedi'u lleoli yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Bydd Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Ystrad Fawr yn parhau i ddarparu ystod eang o apwyntiadau cleifion allanol arferol ar gyfer plant a llawdriniaethau dydd dewisol penodol.

Bydd **Unedau Mân Anafiadau** lleol i blant (dros 1 oed) yn aros yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Ystrad Fawr, ac Ysbyty Aneurin Bevan. Bydd angen i bob plentyn o dan 1 oed gael eu gweld yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.



## Gwasanaethau Mamolaeth

Bydd clinigau cynenedigol, genedigaethau arferol dan arweiniad bydwragedd a chlinigau ôl-enedigol yn digwydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Ystrad Fawr. Bydd pob genedigaeth dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol yn digwydd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, gyda chanolfan ychwanegol ar gyfer genedigaethau dan arweiniad Bydwragedd yn yr ysbyty.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **bipab.gig.cymru.**

Dilynwch ni i gael y wybodaeth ddiweddaraf neu i ofyn cwestiwn:

@BIPAneurinBevan /BwrddIechydAneurinBevan

Dyfodol Clinigol
Clinical Futures